# Llywodraethiant y DU a'r UE: Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Ymweliad

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | 25 Medi 2023

## 1. Perthynas y DU â'r UE ar hyn o bryd

- Clywodd y Pwyllgor fod y berthynas rhwng y DU a'r UE wedi gwella ar ôl cytuno ar Fframwaith Windsor. Roedd dod i gytundeb ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Ariannol hefyd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol er mwyn adfer ymddiriedaeth a 'normaleiddio'r berthynas'.

- Mae parodrwydd ac awydd o hyd yn yr UE i gydweithredu â llywodraethau, sefydliadau a mudiadau cymdeithas sifil y DU. Soniwyd am lawer o feysydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall lle y bydd parhau i gydweithredu, a chryfhau'r cydweithredu hwnnw, yn bwysig.

- Mae rhai meysydd sy'n peri pryder o hyd hefyd i sefydliadau a chyrff yr UE o ran y camau y mae'r DU yn eu cymryd. Mae'r rhain yn cynnwys materion megis datblygu porthladdoedd rhydd, Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a'r posibilrwydd o ddadreoleiddio yn gyffredinol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cydweithredu rheoleiddiol yn allweddol ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol ac y gallai ymwahanu fod 'yn broblem aruthrol'.

- Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i'r DU barhau i fonitro a llywio deddfwriaeth yr UE a allai effeithio ar fusnesau a sefydliadau'r DU, yn enwedig y rhai sydd y tu hwnt i gwmpas strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (y Cytundeb). Soniwyd am

bwysigrwydd dilyn ffeiliau cyfreithiol a pholisïau drwy sefydliadau'r UE ac yn enwedig felly bwyllgorau Senedd Ewrop.

# 1. Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

- Clywodd y Pwyllgor fod gweithredu'r Cytundeb yn llawn ac yn briodol yn allweddol er mwyn cryfhau'r berthynas ac o ran cydweithredu yn y dyfodol.

- Clywodd y Pwyllgor y farn mai 'dim ond 10% o'r Cytundeb' oedd yn llwyr weithredol mewn gwirionedd a bod llawer mwy i'w wneud er mwyn gwneud defnydd llawn o'i ddarpariaethau.

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod canolbwyntio ar y materion 'sylfaenol' ac 'ymarferol' sy'n wynebu busnesau a sefydliadau yn un ffordd ddefnyddiol o geisio dylanwadu ar weithredu a datblygu'r Cytundeb. Cynigiwyd system olrhain materion Grŵp Cynghori Domestig yr UE fel enghraifft o hyn. Clywodd y Pwyllgor y gallai tystiolaeth o rwystrau ymarferol fod yn dystiolaeth ddefnyddiol i helpu i lywio trafodaethau ar weithredu a datblygu'r Cytundeb.

- Clywodd y Pwyllgor fod llawer o'r grym, oherwydd natur y Cytundeb, yn nwylo'r weithrediaeth, ac mai rôl gyfyngedig sydd i seneddau yn y strwythurau llywodraethu.

- Clywodd y Pwyllgor fod ymwneud llywodraethau datganoledig â strwythurau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn well o'i gymharu â'u hymwneud â'r Cytundeb Ymadael, ac eithrio Gogledd Iwerddon sydd â rôl benodol mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor. Fodd bynnag, mae diffyg cyd-ddealltwriaeth ynghylch beth yw blaenoriaethau Llywodraeth y DU o ran gweithredu a datblygu'r Cytundeb. Mae angen rhagor o gydweithio a chydgysylltu yn hyn o beth.

- Pwysleisiwyd rôl bwysig gweithredwyr iswladwriaethol, rhanbarthau, awdurdodau lleol a'r gymdeithas sifil o ran gweithredu'r Cytundeb a datblygu cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Clywodd y Pwyllgor am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan wahanol weithredwyr yn y DU a'r UE ar lefel iswladwriaethol ond clywodd hefyd y gellid eu cryfhau, rhoi adnoddau gwell iddynt a'u defnyddio'n well. Nodwyd bod cydgysylltu

amrywiol strwythurau a chyfarfodydd rhwng y DU a'r UE yn un ffordd o wneud yn fawr o'r cyfleoedd hyn i ymgysylltu.

- Clywodd y Pwyllgor am bwysigrwydd cydweithrediad cymdeithas sifil o fewn strwythurau ffurfiol y Cytundeb ac o ran ymgysylltu uniongyrchol y tu allan i'r strwythurau hyn. O ran y Fforwm Cymdeithas Sifil, clywodd y Pwyllgor fod lle i'r fforwm esblygu a chaniatáu deialog a thrafod mwy cyfranogol rhwng grwpiau cymdeithas sifil y DU a'r UE. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd cynnwys pobl ifanc yn y strwythurau llywodraethu ffurfiol a thrwy fecanweithiau eraill.

- Nodwyd rolau penodol i'r Pwyllgor o ran hyrwyddo'r llwybrau a'r cyfleoedd ar gyfer cynnwys cymdeithas sifil y DU a'r UE ymhellach a cheisio consensws ledled y DU ar wella rôl cenhedloedd iswladwriaethol, rhanbarthau ac awdurdodau lleol wrth weithredu'r Cytundeb.

# 2. Perthynas y DU a'r llywodraethau datganoledig

- Clywodd y Pwyllgor fod cydgysylltu da ym Mrwsel rhwng y llywodraethau datganoledig a rhwng y llywodraethau datganoledig a Chenhadaeth y DU i'r UE. Rhennir gwybodaeth yn dda ac mae digwyddiadau cydweithio a gwaith hyrwyddo da yn digwydd.

- Clywodd y Pwyllgor hefyd am enghreifftiau o waith da o ran ymgysylltu a meithrin perthynas rhwng Cenhadaeth y DU a'r llywodraethau datganoledig a sefydliadau'r UE.

- Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod angen gwella pethau o ran y strwythurau rhynglywodraethol o fewn y DU ar faterion a phenderfyniadau rhwng y DU a'r UE. Clywodd y Pwyllgor fod lefel y diddordeb, y gydnabyddiaeth a'r ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig yn 'gymysg' ar draws adrannau Whitehall a'i bod yn dibynnu ar ymwybyddiaeth yr adran dan sylw o faterion datganoledig a'i phrofiad o weithio ar y materion hynny.

# 3. Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

- Roedd cefnogaeth eang i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE (y Cynulliad) a'i waith. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan Aelodau o Senedd Ewrop sy'n uchel eu statws lawer o ddiddordeb yng ngwaith y Cynulliad o gymharu â chyrff tebyg eraill.

- Pwysleisiwyd hefyd fod angen i'r Cynulliad barhau i esblygu, gwneud yn fawr o'r pwerau a roddir iddo yn y Cytundeb a bod yn gorff ystyrlon. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod trafodaethau'r Cynulliad wedi tueddu i ganolbwyntio ar y gorffennol neu ar y dyfodol, h.y. ar feysydd cydweithredu nad ydynt yn rhan o'r Cytundeb, ond nad oedd wedi canolbwyntio i'r un graddau ar y 'nawr' a'i rôl ganolog o ran monitro'r ffordd y gweithredir y Cytundeb. Teimlid y gallai hon fod yn dasg ddefnyddiol a phwysig i'r Cynulliad.

- Tynnwyd sylw at yr angen i gysylltu gwaith y Cynulliad â gwaith ehangach rhwng y DU a'r UE ac ystyried y Cytundeb mewn deddfwrfeydd yn yr UE a'r DU.

- Croesawyd y ffaith bod rolau'r gwledydd datganoledig, rhanbarthau ac awdurdodau Ewropeaidd a'r gymdeithas sifil yng ngwaith y Cynulliad yn cael eu datblygu, ond dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai datblygu'r cysylltiadau hyn neu greu is-strwythurau mewn meysydd gwaith penodol gyfoethogi ei waith ymhellach.

# 4. Statws trydedd wlad a chymell tawel

- Clywodd y Pwyllgor fod y DU yn dal i geisio deall ei rôl fel 'trydedd wlad' i'r UE a sut mae ymgysylltu ar sail hynny. Dywedodd sefydliadau'r UE hefyd wrth y Pwyllgor fod yr UE yntau yn y broses o gydnabod statws newydd y DU a cheisio deall sut y dylai'r berthynas weithio.

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cymell tawel ar amryw o ffurfiau. Crybwyllwyd defnyddio rhwydweithiau sy'n cynnwys sefydliadau o Aelod-wladwriaethau'r UE ac o lywodraethau a sefydliadau'r DU, ac aelodaeth o'r rhwydweithiau hynny. Ymhlith y rhwydweithiau mae Menter Vanguard a Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gall rhwydweithiau o'r fath ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd i lywio polisi'r UE drwy bartneriaid a rhanbarthau cynghreiriol na fyddai ar gael i'r DU fel arall.

- Nodwyd bod digwyddiadau diwylliannol a thematig sy'n helpu i hyrwyddo gwledydd y DU ac sy'n pwysleisio meysydd o ddiddordeb cyffredin hefyd yn bwysig er mwyn cynnal perthynas a meithrin rhwydweithiau a chysylltiadau.

- Clywodd y Pwyllgor fod penderfyniad y DU i beidio â chymryd rhan yn Erasmus yn dal i fod yn resyn gan yr UE. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai'r DU fod ar ei hennill o safbwynt diplomyddiaeth a chymell tawel, hyd yn oed pe ystyrid bod y cynllun, ar sail ariannol, yn cynnig gwerth am arian i'r DU. Er enghraifft, cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr Erasmus sydd bellach yn gweithio yn yr UE, cysylltiadau â chyrff a sefydliadau addysg Ewropeaidd ac ati. Clywodd y Pwyllgor fod rhai sefydliadau a llywodraethau yn y DU wedi gwneud defnydd da o gyn-fyfyrwyr cynllun Erasmus a phrifysgolion i feithrin a chynnal cysylltiadau. Croesawyd rhaglen Taith Llywodraeth Cymru ac roedd pobl yn gwybod amdani.

- Nodwyd bod hybu meysydd o ddiddordeb cyffredin, polisïau arloesol ac arbenigedd hefyd yn elfennau allweddol er mwyn meithrin a chynnal cysylltiadau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod angen i drydydd gwledydd 'ddefnyddio pob cyfrwng sydd ar gael' i ddylanwadu ar benderfyniadau a chynnal cysylltiadau â'r UE. Crybwyllwyd gwaith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol fel enghreifftiau. Soniwyd bod y Gynghrair Werdd, a sefydlwyd gan Norwy i gydweithio ar faterion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy, hefyd yn enghraifft dda.

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu mentrau a digwyddiadau cydweithredol yn hytrach na rhai 'o'r brig i lawr'. Er enghraifft, nid dim ond cynnal digwyddiadau lle rhennir arbenigedd neu wybodaeth y DU, ond chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid yn yr UE i ddatblygu'r materion dan sylw.

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai Cenhadaeth y DU i'r UE geisio dysgu oddi wrth lywodraethau datganoledig sydd â mwy o brofiad o ddefnyddio a manteisio ar ddulliau cymell tawel yn yr UE oherwydd eu statws blaenorol fel cenhedloedd is-Aelod-wladwriaethol o fewn yr UE.

# 5. Y berthynas yn y dyfodol

- Er mwyn cryfhau'r cydweithredu rhwng y DU a'r UE, clywodd y Pwyllgor fod angen i'r DU ganolbwyntio yn gyntaf ar roi'r cytundebau presennol rhwng y DU a'r UE ar waith yn briodol a'u defnyddio'n llawn.

- Clywodd y Pwyllgor am bwysigrwydd defnyddio'r cytundebau presennol fel 'sylfaen' ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylai'r DU geisio gwneud hyn yn gyntaf, cyn edrych ar feysydd cydweithredu nad ydynt yn rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd yr UE yn gofyn a yw'r DU wedi 'rhoi trefn ar bethau gartref' cyn ceisio adeiladu ar y berthynas.

- Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd sefydlogrwydd, dibynadwyedd a chyfeiriad clir gan y DU. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen dealltwriaeth glir o'r hyn y mae ar y DU a'r llywodraethau datganoledig ei eisiau.

- Nodwyd meysydd eraill o ran cydweithredu gwell gan gynnwys pysgodfeydd, diogelwch a pholisi tramor a symudedd pobl ifanc.

- Ar y cyfan, roedd consensws, er bod y drws yn gilagored ar gyfer cydweithredu pellach, nad mater o ailnegodi fydd yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn 2025/26. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai fod cyfle i chwilio am welliannau yn seiliedig ar feysydd a nodwyd yn y Cytundeb ond na fyddai'r UE yn awyddus 'i ailnegodi bob pum mlynedd'. Roedd consensws y gallai'r DU a'r UE chwilio am sefyllfaoedd lle mae pawb ar eu hennill o fewn cwmpas y Cytundeb, a allai ganiatáu rhagor o gydweithredu.

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylai'r DU, fel trydedd wlad, geisio sicrhau ei bod yn rhoi ei chytundebau presennol ar waith yn llawn a'i bod yn defnyddio'r ewyllys da a'r ymddiriedaeth a ddaw yn sgil hynny i gryfhau'r cydweithredu.

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod angen i'r DU siarad iaith yr UE wrth geisio meithrin y berthynas ymhellach, e.e. drwy beidio â siarad am ailnegodi'n gyfan gwbl. Dywedwyd wrtho fod angen i'r DU barhau i feithrin ei 'dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r UE yn gweld y DU' a dod i ddeall blaenoriaethau'r UE yn llawn. Dylai'r DU barhau i feithrin 'ei dealltwriaeth o'r berthynas yn y dyfodol' a chwilio am feysydd o

ddiddordeb cyffredin, gan gynnig atebion cyffredin a 'pheidio â chreu problemau i'r UE'.

# 6. Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nia Moss

0300 200 6313

Nia.Moss@senedd.cymru